Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

# Cais am orchymyn ad-dalu gan feddiannydd safle heb ei drwyddedu

## Adran 33(4) Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”).

**Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.**

Dyma'r ffurflen i'w defnyddio os ydych chi (neu os oeddech chi) yn feddiannydd cartref symudol preswyl wedi'i osod ar safle heb ei drwyddedu ac mai hwn yw (neu oedd) eich unig breswylfa neu eich prif breswylfa, ac:

- Eich bod wedi gwneud taliad i berchennog neu reolwr y safle mewn perthynas â phrynu cartref symudol ar y safle NEU
- Bod rhywun wedi talu comisiwn i berchennog neu reolwr y safle mewn perthynas â phrynu cartref symudol sydd wedi’i osod ar y safle NEU
- Bod ffi am lain wedi cael ei thalu mewn perthynas â'r cartref symudol ar y safle heb ei drwyddedu NEU
- Bod unrhyw daliadau cyfnodol wedi cael eu talu mewn perthynas â'r cartref symudol ar safle heb ei drwyddedu

A'ch bod yn dymuno gwneud cais am orchymyn ad-dalu o dan adran 33(4).

**Nodyn i Geiswyr**

Cynghorir Ceiswyr ei bod yn bosib y bydd unrhyw wybodaeth y maent yn ei rhoi i'r Tribiwnlys yn cael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad. Mae pob penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys yn agored i’r cyhoedd.

**Dogfennau**

Mae'n rhaid i chi anfon y ddogfen/dogfennau canlynol ("dogfen/dogfennau angenrheidiol") gyda'r cais hwn:

- tystiolaeth fod perchennog y safle wedi cael ei gollfarnu am drosedd o dan adran 5 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ( achosi neu ganiatáu i safle rheoleiddiedig gael ei ddefnyddio fel safle rheoleiddiedig heb drwydded safle)
- tystiolaeth eich bod wedi gwneud taliadau cyfnodol neu wedi talu ffioedd am lain mewn perthynas â’ch cartref symudol i berchennog neu reolwr y safle ar gyfer y cyfnod yr honnir fod trosedd o’r fath wedi cael ei gyflawni.
- tystiolaeth o daliadau gan y meddiannydd (neu’r person y mae meddiannydd y cartref symudol wedi cael perchnogaeth ar y cartref symudol drwyddo) i berchennog neu reolwr y safle mewn perthynas â phrynu cartref symudol sydd wedi'i osod ar y safle
- tystiolaeth o unrhyw gomisiwn y mae unrhyw berson wedi’i dalu i berchennog neu reolwr y safle mewn perthynas â gwerthu cartref symudol sydd wedi’i osod ar y safle.
- Unrhyw dystiolaeth sy’n ymwneud â'r materion a grybwyllwyd yn adran 33(9), ac
- Unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n ategu'r cais.

Gallai methu ag anfon y ddogfen/dogfennau angenrheidiol olygu na fydd y cais hwn yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Pan ac os bydd angen rhagor o wybodaeth, tystiolaeth neu ddogfennau arnom, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

**Ffi Gwneud Cais**

Oni bai bod gennych hawl i ostyngiad neu hepgoriad, mae'n rhaid i chi anfon y Ffi Gwneud Cais gyda'r cais a'r dogfennau angenrheidiol.

Bydd cost y ffi gwneud cais yn dibynnu ar faint o leiniau neu Gartrefi Symudol sydd wedi'u cynnwys yn y cais.

| Nifer y lleiniau neu'r Cartrefi Symudol sydd wedi'u cynnwys yn y cais | Ffi Gwneud Cais |
|---|---|
| Os yw'r cais yn ymwneud ag un llain neu Gartref Symudol | £155 |
| Os yw'r cais yn ymwneud â dwy lain neu ddau Gartref Symudol | £205 |
| Os yw'r cais yn ymwneud â thair neu bedair llain neu dri neu bedwar Cartref Symudol | £410 |
| Os yw'r cais yn ymwneud â phump neu fwy o leiniau neu Gartrefi Symudol | £515 |

Rhaid talu'r ffi drwy archeb bost neu siec wedi'i chroesi wedi'i gwneud yn daladwy i "Cynulliad Cenedlaethol Cymru".

Peidiwch ag anfon arian parod o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fyddwn yn derbyn taliadau mewn arian parod.

**Cofiwch:**

Os nad ydych yn anfon y ffi gywir sy'n daladwy i "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu os byddwch yn anfon arian parod, byddwn yn anfon y cais a'r arian parod yn ôl atoch ar eich cyfrifoldeb eich hun.

**Hepgor Ffioedd**

Os yw'r Ceisydd/Ceiswyr neu bartner/bartneriaid y Ceisydd/Ceiswyr yn cael rhai budd-daliadau penodol sy'n seiliedig ar incwm, gellir gostwng neu hepgor y Ffi Gwneud Cais.

I hawlio gostyngiad ar y Ffi Gwneud Cais neu am hepgor y ffi , mae'n rhaid i'r Ceisydd/Ceiswyr sy'n cael budd-dal o'r fath neu'r Ceisydd/Ceiswyr sydd â phartner/partneriaid sy'n cael budd-dal o'r fath, lenwi ffurflen cais am hepgoriad ffioedd. Mae hon ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Ni fydd y partïon eraill yn cael copi o hon.

**Amserlenni**

- Rhaid gwneud y cais o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddyddiad y gollfarn.
- Ni all y Tribiwnlys wneud gorchymyn ad-dalu yng nghyswllt unrhyw swm a dalwyd ar unrhyw adeg y tu allan i'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y dyddiad y gwnaeth y meddiannydd y cais i'r tribiwnlys (adran 33(10)).

**Dewis iaith**

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

**Mae’n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau uchod yn ofalus cyn llenwi’r ffurflen hon. Ysgrifennwch yn glir gan ddefnyddio inc DU, os gwelwch yn dda.**

## 1. MANYLION Y SAFLE

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad y Safle: | |

## 2. MANYLION Y CEISYDD

| | |
|---|---|
| Enw: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad y cartref symudol (gan gynnwys cod post): | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol): | |

Rhif ffôn:

| |
|---|
| *Yn ystod y dydd:* |
| *Gyda'r nos:* |
| *Symudol:* : |
| Cyfeiriad e-bost: |

| |
|---|
| Enw, cyfeiriad a manylion yr asiant/cynrychiolydd (os yn berthnasol) |

Os oes mwy nag un Ceisydd, rhowch fanylion ar dudalen ar wahân.
*Lle rhoddir manylion asiant/cynrychiolydd, gyda’r asiant/cynrychiolydd hwnnw y bydd y Tribiwnlys yn cyfathrebu ac yn gohebu bob amser hyd nes y caiff ei hysbysu nad yw bellach yn gweithredu ar ran y ceisydd/ceiswyr.*

## 3. DEWIS IAITH

**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawiad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

## 4. MANYLION PERCHENNOG Y SAFLE SY'N YMATEB

| | |
|---|---|
| Enw'r perchennog safle sydd wedi cael taliadau: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post): | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol): | |

Rhif ffôn:

| |
|---|
| *Yn ystod y dydd:* |
| *Gyda'r nos:* |
| *Symudol: :* |
| Cyfeiriad e-bost: |

## 5. MANYLION Y RHEOLWR SAFLE SY'N YMATEB

| | |
|---|---|
| Enw'r rheolwr safle sydd wedi cael taliadau: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post): | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad ar gyfer gohebu (os yw'n wahanol): | |

Rhif ffôn:

| |
|---|
| *Yn ystod y dydd:* |
| *Gyda'r nos:* |
| *Symudol: :* |
| Cyfeiriad e-bost: |

## 6. MANYLION YR UNIGOLION SYDD Â BUDDIANT

Mae angen i'r Tribiwnlys wybod enwau a chyfeiriadau pobl eraill a allai gael eu heffeithio'n sylweddol gan y cais hwn megis meddianwyr cartrefi symudol preswyl eraill ar y safle heb ei drwyddedu.

| | |
|---|---|
| Enw'r person sydd â buddiant: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post): | |

| | |
|---|---|
| Enw'r person sydd â buddiant: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post): | |

| | |
|---|---|
| Enw'r person sydd â buddiant: | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post): | |

Os oes rhagor o unigolion â buddiant, rhowch y manylion ar dudalen ar wahân.

## 7. DYDDIAD COLLFARNU PERCHENNOG Y SAFLE O DAN ADRAN 5

Beth oedd dyddiad collfarnu perchennog y safle? ____________

Rhowch dystiolaeth o'r gollfarn.

Cadarnhewch fod y cais hwn yn cael ei wneud o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar ddyddiad y gollfarn Adran 33(6) (c).

YDY ☐ NAC YDY ☐

## 8. MANYLION Y TALIADAU A WNAED O DAN ADRAN 5 Y DDEDDF

Nodwch fanylion y canlynol: y taliadau a wnaed, i bwy y gwnaed y taliadau, dyddiad y taliadau a chynnwys tystiolaeth ddogfennol o'r taliadau.

**Sylwch: Dim ond mewn perthynas â thaliadau a wnaed o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y dyddiad y gwnaeth y meddiannydd y cais i'r tribiwnlys y mae gan y tribiwnlys awdurdodaeth i wneud gorchymyn ad-dalu.**

## 9. RHAGOR O WYBODAETH

Rhowch fanylion unrhyw wybodaeth bellach sydd gennych am ymddygiad ac amgylchiadau ariannol perchennog neu reolwr y safle rydych chi am i'r tribiwnlys ei hystyried. Parhewch ar dudalen ar wahân.

## 10. ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosibl delio â'ch cais yn gyfan gwbl ar sail sylwadau ysgrifenedig ("penderfyniad ar bapur") OND DIM OND:

Os bydd y tribiwnlys yn meddwl fod hynny'n briodol ac
Os nad yw unrhyw barti yn gofyn am wrandawiad.

Hyd yn oed os ydych chi'n cytuno i benderfyniad ar bapur

Efallai y bydd y Tribiwnlys, serch hynny, yn penderfynu bod gwrandawiad llafar yn angenrheidiol.
Gallwch chi neu unrhyw barti arall ofyn am wrandawiad llafar o hyd ar unrhyw bryd cyn y bydd y penderfyniad yn cael ei wneud.

Ydych chi'n cytuno i'r cais hwn gael ei benderfynu heb wrandawiad llafar?

YDW ☐ NAC YDW ☐

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon, gan dybio y bydd gwrandawiad llafar yn cael ei gynnal.**

## 11. FAINT O FRYS SYDD I GAEL PENDERFYNIAD

Dywedwch wrthym a oes brys penodol i gael penderfyniad ar yr achos hwn, ac os felly, pam?

## 12. ARGAELEDD

A wnewch chi roi gwybod i ni isod os oes unrhyw ddyddiadau neu ddyddiau yn y tri mis nesaf y bydd yn rhaid i ni eu hosgoi (naill ai oherwydd nad ydynt yn hwylus i chi neu oherwydd nad ydynt yn hwylus i unrhyw dyst neu arbenigwr y byddech yn dymuno ei alw).

Dyddiadau pan NAD ydych ar gael:

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | Dyddiad: | Dyddiad: |
| Dyddiad: | Dyddiad: | Dyddiad: |

## 13. GOFYNION O RAN Y LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu sydd gan unrhyw un a fydd yn dod gyda chi. Cynhelir y gwrandawiadau mewn lleoliadau lleol. Bydd o gymorth i'r Clercod archebu lleoliad addas ar eich cyfer os ydynt yn gwybod beth yw eich anghenion.

| |
|---|
| |

## 14. DATGANIAD GWIRIONEDD

*Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y datganiad hwn yn wir.*

Llofnod: ______________________________

Enw (mewn llythrennau bras) ______________________________

Swydd (os yn briodol) (ee Cyfarwyddwr, Cyfreithiwr): ______________________________

Dyddiad: ____________________

**RHESTR WIRIO**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Cwblhau'r ffurflen YN LLAWN.
- Cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.
- Talu'r ffi briodol neu wedi gwneud cais am hepgoriad.

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os nad ydych wedi gwneud hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r weithdrefn y bydd y Tribiwnlys yn ei defnyddio, cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ar 0300 025 2777 neu anfonwch e-bost at rpt@llyw.cymru

**Ni fydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn derbyn ceisiadau drwy FFACS na dros yr E-bost.**

Llenwch y ffurflen gais a'i hanfon gyda'r dogfennau angenrheidiol i'r cyfeiriad isod:

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl**
**Oak House**
**Cleppa Park**
**Celtic Springs**
**Casnewydd**
**NP10 8BD**